| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.<br><br>Gwariant ar fasnach a mewnfuddsoddi, twristiaeth a digwyddiadau mawr i hyrwyddo Cymru; cefnogi diwylliant a'r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru; y diwydiannau creadigol ac eraill; arweinyddiaeth strategol i'r gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd; y cyfryngau a chyhoeddi; cefnogi'r amgylchedd hanesyddol drwy Cadw, Gerddi Botaneg Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru; hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy Chwaraeon Cymru ac eraill; cefnogi'r Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg; hyrwyddo datblygu rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol sy'n rhoi budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i Gymru. | **167,278** |

